DAEARGRYN NEPAL – EBRILL 2015

Cyflwyniad

Tarodd ddaeargryn maint 7.8 ar y Raddfa Richter y rhanbarth tlawd, tirgaeedig a mynyddig yn Asia, sef Nepal, ddydd Sadwrn 26 Ebrill 2015. Teimlwyd y daeargryn mewn gwledydd cyfagos, gan gynnwys Tsieina, India a Bangladesh, a lladdwyd degau o bobl yn y gwledydd hynny. Ysgydwodd ôl-gryniadau cryfion drwy Nepal, gan orfodi trigolion Kathmandu i gysgu y tu allan mewn tywydd gwael. Erbyn dydd Mercher, 6 Mai 2015, roedd nifer y marwolaethau yn Nepal wedi codi i tua 7,600, ac anafwyd 16,400 o bobl. Fodd bynnag, roedd llawer o'r wlad yn parhau i fod yn anghyraeddadwy i achubwyr ac roedd Llywodraeth Nepal yn disgwyl i nifer y marwolaethau gynyddu i 10,000 o bobl. Roedd y difrod i'r adeiladau a'r seilwaith ym mhrifddinas Kathmandu ei hun yn helaeth.

Ffeil o ffeithiau am Nepal[1]
Poblogaeth – 31 miliwn (Y Cenhedloedd Unedig 2012) Prifddinas – Kathmandu (poblogaeth, 1,003,285 – Cyfrifiad 2011) Daearyddiaeth – gwlad dirgaeedig a mynyddig, 147,181 milltir sgwâr. Mae 90 o fynyddoedd Nepal yn uwch na 7,000 metr, gan gynnwys Everest (8,848 m), sef copa uchaf y byd. GNI/y pen – $730 UDA (Banc y Byd, 2013) Mynegai Datblygiad Dynol (HDI) – 145 allan o 166 o wledydd (2014) Allforion – carpedi, dillad, nwyddau lledr, deunyddiau jiwt, grawn

Dinistriwyd cartrefi ledled Kathmandu. Llun: Shristi Rajbhandari

[1] http://bbc.in/1bwue7v

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mae Nepal wedi'i lleoli mewn ardal o ddaeargrynfeydd gweithredol ac mae wedi profi dirgryniadau difrifol yn y gorffennol. Ni fynegodd ddaearegwyr fawr o syndod fod daeargryn newydd wedi taro a rhagfynegwyd yn gywir ei effaith ddinistriol.[2] Fodd bynnag, nid oedd y wlad yn barod i ymdopi â daeargryn o'r maint hwn.

Yn yr un modd â bron pob trychineb, effeithiwyd ar y bobl dlotaf waethaf. Mae pobl nad oes ganddynt yr adnoddau i fforddio gwell tai yn byw mewn adeiladau tenement cyfyng a adeiladwyd yn wael. Roedd yr adeiladau hyn ymhlith y cyntaf i ddymchwel yn y daeargryn, gan naill ai cau'r preswylwyr y tu mewn iddynt neu eu hamddifadu o'u cartrefi eu hunain pe byddent yn goroesi. O gymharu â hyn, mae trigolion gwell eu byd yn dueddol o fyw mewn adeiladau o fflatiau a adeiladwyd yn well ac yn llwyddo i osgoi effeithiau gwaethaf y daeargryn.[3]

Ar adeg ysgrifennu'r adnodd hwn, nid oedd cyswllt wedi'i wneud o hyd â rhai o ardaloedd mwy anghysbell Nepal lle'r oedd disgwyl i'r nifer a anafwyd fod yn uchel a'r difrod yn ddifrifol. Nid yw anghyfiawnder yn fater cymdeithasol yn unig, mae hefyd yn ofodol. Mae cefn gwlad Nepal yn llawer tlotach na phrifddinas Kathmandu, ac o ganlyniad yn llawer mwy agored i niwed. Amcangyfrifodd Llywodraeth Nepal ddydd Mercher, 28 Ebrill, y byddai nifer y marwolaethau yn codi i 10,000 o bobl.[4]

Y difrod yn Kathmandu. Llun: Shristi Rajbhandari

[2] http://bit.ly/1PQgq6Z
[3] http://bit.ly/1FsaTR0
[4] http://bit.ly/1GAwQw5

Mae gallu Llywodraeth Nepal i ymateb i drychineb naturiol ar y raddfa hon yn gyfyngedig ac mae'n ei chael yn anodd ymdopi ag effeithiau'r daeargryn.[5] Mae'r ymateb rhyngwladol wedi bod yn ddi-oed gyda'r India, Tsieina, Pacistan, y DU, Awstralia a Seland Newydd yn anfon cymorth. Lansiodd Pwyllgorau Argyfyngau'r DU (DEC) apêl gyhoeddus am gyfraniadau ddydd Mawrth, 28 Ebrill. [6] Mae ymateb i'r argyfwng hwn a chryfhau gwytnwch Nepal ar gyfer trychinebau yn y dyfodol yn heriau mawr ar gyfer Llywodraeth Nepal a'r gymuned ryngwladol, fel ei gilydd.

Gwybodaeth am yr adnodd hwn

Cynlluniwyd yr adnodd hwn i'w gyflwyno mewn gwasanaeth ac mae'n cynnwys cyflwyniad o sleidiau a sgript gysylltiedig. Gellir darllen y sgript yn adran 'nodiadau'r' cyflwyniad sleidiau. Mae'r gwasanaeth wedi'i ysgrifennu ar gyfer disgyblion CA3 ond gellir ei addasu fel sy'n ofynnol ar gyfer disgyblion hŷn neu iau.

Mae'r adnodd wedi'i rannu'n bedair adran.

Mae'r adrannau'n cynnwys:

Adran 1: Sleidiau 1-6. Beth yw trychineb?
Adran 2: Sleidiau 7-13. Daeargryn Nepal
Adran 3: Sleidiau 14-21. Pam y mae rhai trychinebau yn waeth na'i gilydd?
Adran 4: Sleidiau 22-27. Ymateb i drychinebau
Adran 5: Sleidiau 28-30. Ymuno â ni

Mae adrannau 1, 2 a 5 yn cynnig **gwasanaeth** ynghylch effaith daeargryn Nepal a'r modd y gall pobl ifanc y DU ymateb i'r digwyddiad. Mae'r adnodd yn awgrymu y byddai trefnu digwyddiad codi arian yn amlygu cydsafiad ac yn helpu i greu byd tecach a mwy cyfiawn i bawb.

Mae adrannau 3 a 4 yn manylu ar pam y mae effeithiau dynol rhai trychinebau yn waeth na'i gilydd a sut y mae'r gymuned ryngwladol yn ymateb i drychinebau. Maent yn darparu'r sail ar gyfer gwers yn yr ystafell ddosbarth.

[5] http://bit.ly/1HLeqdz
[6] http://bit.ly/1bz5agm

Meddwl yn feirniadol

Awgrymir y cwestiynau canlynol i annog y disgyblion i feddwl yn feirniadol ac i drafod.

Adran 1. Beth yw trychineb? (Sleidiau 1-6)

- Pam y mae effeithiau'r daeargrynfeydd difrifol yn Seland Newydd a Nepal wedi bod yn wahanol?

Adran 2. Daeargryn Nepal (Sleidiau 7-13)

- A yw'r daeargryn wedi effeithio ar holl bobl Nepal yn yr un modd? Beth a allai'r rhesymau fod dros y gwahaniaethau?

Adran 3. Beth sy'n gwneud rhai trychinebau yn waeth na'i gilydd? (Sleidiau 14-21)

- Pa rai o'r ffactorau hyn oedd bwysicaf o ran dylanwadu ar effaith daeargryn Nepal, yn eich barn chi? Pam yr ydych yn meddwl hyn?

Adran 4. Ymateb i drychinebau (Sleidiau 22-27)

- I ba raddau yr ydych yn cytuno â threfn yr ymateb i'r trychinebau? A fyddech yn newid trefn yr ymatebion? A ydych yn credu bod yna ymatebion pwysig na roddwyd ar waith?

Adran 5. Cymryd rhan

- Ai codi arian yw'r ffordd orau o gymryd rhan? A oes yna ffyrdd eraill y gall pobl ifanc amlygu eu cefnogaeth a'u cydsafiad â phobl Nepal?

Adnoddau eraill

Pecyn ar-lein, *Dealing with Disasters*

Mae'r pecyn ar-lein, *Dealing with Disasters*, yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth ynghylch pam y mae trychinebau yn digwydd a beth y gallwn ei wneud i helpu. Mae'n addas ar gyfer disgyblion 11-14 oed a gellir ei lawrlwytho yma: http://www.oxfam.org.uk/education/resources/dealing-with-disasters

Canolfan i Ymwelwyr Oxfam – Logistics Warehouse

Bydd ymweliad â Logistics Warehouse Oxfam yn Bicester yn dod â gwaith Oxfam o ran ymateb i argyfyngau yn fyw. Mae'r Ganolfan i Ymwelwyr yn arddangos yr offer y mae Oxfam yn ei anfon i safleoedd o argyfyngau dyngarol. I gael rhagor o wybodaeth a threfnu ymweliad rhad ac am ddim ar gyfer eich ysgol neu eich grŵp ieuenctid, anfonwch neges e-bost i stockteam@oxfam.org.uk

Y Ganolfan i Ymwelwyr yn Logistics Warehouse, Oxfam.
Llun: Amy Christian/Oxfam

Schools Speak Out ar gyfer pobl ifanc 11-18 yn Lloegr
www.oxfam.org.uk/education/get-involved/start-oxfam-school-group/

Cynllunio'r cwricwlwm

Mae cwmpas cyfyngedig yr adnodd hwn yn atal archwiliad llawn o drychineb cymhleth, er enghraifft trwy archwilio ei effaith ar fenywod a merched a chyfraith a threfn. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar nifer bach o themâu allweddol. I archwilio'r thema yn fanylach, darllenwch *Dealing with Disasters* (uchod). Mae'r dolenni canlynol yn rhoi deunyddiau darllen cefndirol a syniadau pellach i gynllunio'r cwricwlwm.

- Proffil o Nepal gan y BBC: http://bbc.in/1bwue7v
- Erthyglau'r Guardian sy'n ymwneud â 'Daeargryn Nepal 2015': http://bit.ly/1HN0KyF
- *Nepal Earthquake: many thousands in need of help* – blog gan Shaheen Chughtai ar ran Oxfam: http://bit.ly/1ziUxcG
- Ffotograffau o Ddaeargryn Nepal: http://bit.ly/1Aa6xrG

Rhoddwyd y ffotograffau hyn yn garedig i Oxfam gan Shristi Rajbhandari sy'n cadw hawlfraint y lluniau.

- Ail gasgliad o ffotograffau: http://bit.ly/1PqGeVf
  Rhoddwyd y ffotograffau hyn yn garedig i Oxfam gan Aubrey Wade sy'n cadw hawlfraint y lluniau.
- Anghydraddoldeb yn Nepal: http://bit.ly/1OyDjyD
- Sky News: *Oxfam's Cecilia Keizer cuts an interview short due to an earthquake aftershock* http://bit.ly/1EyVcXF
- BBC: Delweddau drôn yn dangos difrod y daeargryn: http://bbc.in/1DtQ15T
- Adroddiad ar Sefyllfa Daeargryn Nepal gan y Cenhedloedd Unedig: diweddariadau rheolaidd o'r ystadegau a'r ffeithiau allweddol: http://bit.ly/1JA5Ctc
- ITV: adroddiad newyddion o Kathmandu, gan gynnwys cyfweliad â staff Oxfam: http://bit.ly/1AvwqYJ

Eich adnoddau

Rhannwch unrhyw adnoddau newydd y byddwch yn eu creu trwy anfon neges e-bost i education@oxfam.org.uk

Cadw mewn cysylltiad

Cadwch mewn cysylltiad ag Addysg Oxfam i gael gwybodaeth am adnoddau a phrosiectau cyffrous ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd.

Gwefan Addysg Oxfam: www.oxfam.org.uk/education

Cyfeiriad e-bost Addysg Oxfam: education@oxfam.org.uk

Blog Addysg Oxfam: http://www.oxfam.org.uk/education/education-blog

Twitter: @oxfameducation

Facebook: Addysg Oxfam

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio'r lluniau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.